

A ddylen ni edrych i mewn i sut mae cynghorau lleol yn penderfynu a yw rhywun yn ddigartref?

Beth yw eich barn chi?



**Hawdd ei
Ddarllen**

Cyflwyniad



Mae'r ddogfen hon yn dod gan yr **Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC)**.



Rydyn ni yn meddwl am gychwyn i:


- ymchwiliad i sut mae cynghorau lleol yng Nghymru yn penderfynu a yw rhywun yn ddigartref.
- Beth mae'r Cyngor wedi'i wneud i helpu pobl ddigartref yn ystod yr achosion o coronafeirws.



Rydyn ni eisiau gwybod beth yw eich barn chi.



Atebwch y cwestiynau hyn, os gwelwch yn dda.



Rydyn ni angen eich atebion cyn hanner nos 30 Hydref 2020

Mae'r **Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC)** yn sefydliad annibynnol sy'n delio â chwynion am **wasanaethau cyhoeddus** sy'n cael eu cynnig gan:



- Cynghorau lleol
- Y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG)
- Cymdeithasau tai
- Llywodraeth Cymru




Mae **gwasanaeth cyhoeddus** yn wasanaeth sy'n cael ei gynnig gan sefydliad sy'n rhan o'r Llywodraeth.

Amdanoch chi



Cwestiwn 1: Rhowch y manylion hyn
amdanoch chi'ch hun

Eich enw:



Y cwmni rydych chi'n gweithio iddo:



Eich cyfeiriad:

Eich cod post:



Eich cyfeiriad e-bost:



Eich rhif ffôn:




Cwestiwn 2: A ydych chi'n rhywun sydd...

- Yn ddigartref?
- Wedi cael **asesiad** ar gyfer digartrefedd?
- Wedi helpu pobl i gael **asesiad**??
- Yn gweithio i gyngor lleol?
- Yn **eiriolwr**?
- Yn gweithio i grŵp cymunedol?
- Yn gynghorydd?
- Â diddordeb yn y mater hwn?



Asesiad yw pan mae staff y cyngor yn cwrdd â chi i benderfynu a ydych chi'n ddigartref ai peidio.



Mae **eiriolwr** yn helpu pobl i siarad am eu problemau, neu'n siarad ar eu rhan.

Cynghorau lleol



Cwestiwn 3: A yw cynghorau lleol yn penderfynu yn y ffordd iawn a yw pobl yn ddigartref?



Ydy



Nac ydy

Dywedwch wrthym pam y gwnaethoch chi ddewis hynny



Cwestiwn 4: A yw pobl ddigartref yn cael gwybod y gallan nhw ofyn i'r cyngor edrych ar y penderfyniad eto?



Ydy



Nac ydy

Dywedwch wrthym pam y gwnaethoch chi ddewis hynny



Cwestiwn 5: A yw cynghorau lleol yn gwneud pethau ar yr amser iawn?



Ydy



Nac ydy

Dywedwch wrthym pam y gwnaethoch chi ddewis hynny



Cwestiwn 6: Pan fydd cyngor wedi newid ei feddwl ynghylch a yw rhywun yn ddigartref, a ydyn nhw yn dysgu sut i beidio â gwneud y camgymeriad hwnnw eto?



Ydy



Nac ydy

Dywedwch wrthym pam y gwnaethoch chi ddewis hynny



Cwestiwn 7: Pan maen nhw yn sylweddoli eu bod nhw wedi cael rhywbeth o'i le, a yw cynghorau yn dweud wrth eu staff i beidio â gwneud y camgymeriad hwnnw eto?



Ydy



Nac ydy

Dywedwch wrthym pam y gwnaethoch chi ddewis hynny



Cwestiwn 8: Beth mae'r Cyngor wedi'i wneud yn wahanol i helpu pobl ddigartref yn ystod yr achosion o coronafirws? A weithiodd hynny?



Ydy



Nac ydy

Dywedwch wrthym pam y gwnaethoch chi ddewis hynny



Cwestiwn 9: A fyddai ymchwiliad i hyn yn beth da ar gyfer pobl yng Nghymru?



Bydd



Na fydd

Dywedwch wrthym pam y gwnaethoch chi ddewis hynny



Cwestiwn 10: Ai Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yw'r sefydliad gorau i ymchwilio i'r mater hwn?



Ie



Na

Dywedwch wrthym pam y gwnaethoch chi ddewis hynny



Cwestiwn 11: A fyddai'r ymchwiliad hwn yn effeithio ar bobl sy'n defnyddio'r Gymraeg?



Cwestiwn 12: Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill?

Diolch




Diolch am eich atebion.



Nawr postiwch eich atebion yn ôl atom i'r cyfeiriad hwn:



**Y Tîm Gwella
Ombwdsmon Gwasanaethau
1 Ffordd yr Hen Gae
Pencoed
CF35 5LJ**



Rydyn ni angen eich sylwadau erbyn hanner nos 30 Hydref 2020.

Am fwy o wybodaeth



Os oes angen mwy o wybodaeth arnoch chi, cysylltwch â ni trwy:



Ffôn:
0300 790 0203



Ebost:
owninitiative@ombwdsmon.cymru



Gwefan:
www.ombwdsmon.cymru



Post:
**Ombwdsmon Gwasanaethau
Cyhoeddus Cymru
1 Ffordd yr Hen Gae
Pencoed
CF35 5LJ**